# Darllen ar gyfer adsefydlu

Adolygiad thematig gan Brif Arolygydd Carchardai EF

Ionawr 2026



# Cynnwys


Cyflwyniad ........................................................................................................ 3

Cefndir ........................................................**Error! Bookmark not defined.**

Trosolwg ........................................................**Error! Bookmark not defined.**

Adran 1 Rôl arweinwyr yn y strategaeth darllen ........... **Error! Bookmark not defined.**

Adran 2 Datblygu diwylliant carchar cyfan sy’n amlygu pwysigrwydd darllen ........................................................**Error! Bookmark not defined.**

Adran 3 Nodi a deall lefelau darllen y boblogaeth garchardai ............... **Error! Bookmark not defined.**

Adran 4 Cynllunio ymyriadau effeithiol i gynorthwyo darllenwyr newydd**Error! Bookmark not defined.**

Adran 5 Rôl llyfrgell y carchar ........................**Error! Bookmark not defined.**

Adran 6 Gwneud i ddarllen fod yn weladwy ac yn hygyrch . **Error! Bookmark not defined.**

Atodiad I Strategaeth darllen ......**Error! Bookmark not defined.**

Atodiad II Methodoleg ............................................................ 35

Rhestr termau ..................................................**Error! Bookmark not defined.**

Cyfeiriadau ......................................................**Error! Bookmark not defined.**

Diolchiadau......................................................**Error! Bookmark not defined.**

# Cyflwyniad

Wedi i mi ddod yn Brif Arolygydd yn 2020, deuthum i bryderu fwyfwy am y diffyg cymorth i'r nifer mawr o garcharorion a oedd â lefelau llythrennedd isel. Yn 2022, roeddem wedi cynnal gwaith thematig ar y cyd ag Ofsted i asesu beth roedd carchardai yn ei wneud i addysgu a hyrwyddo darllen. Roedd y canfyddiadau'n rhai digalon iawn. Y rheini â'r angen mwyaf a oedd yn cael y lleiaf o gymorth, ychydig roedd darparwyr addysg yn ei wneud i roi sylw i lefelau isel o gyflawniad, nid oedd oriau agor y llyfrgelloedd wedi dod yn ôl i'r hyn oeddent cyn y pandemig a phrin oedd y carchardai a oedd ag unrhyw fath o strategaeth i'r carchar cyfan i hyrwyddo darllen i bob carcharor.

Roeddem wedi ailedrych ar y canfyddiadau yn 2023 a chael mai araf iawn fu'r cynnydd – er bod mwy o garchardai wedi mabwysiadu strategaeth darllen, roedd yn aml yn hel llwch ar silff y llywodraethwr yn hytrach na chael ei defnyddio i wella safonau.

Yn haf 2025, penderfynwyd ailedrych ar y pwnc tra phwysig hwn. Rhoesom sylw yn benodol i garchardai ym mhob categori lle roeddem yn gwybod bod arweinwyr wedi rhoi blaenoriaeth i ddarllen. Mae'r adroddiad hwn yn tynnu sylw at rai canfyddiadau cadarnhaol iawn o garchardai lle roedd llywodraethwyr ymroddedig ac arweinwyr eraill wedi cydweithio i feithrin diwylliant darllen cadarn yn y carchar. Mae'n dangos bod arweinwyr, hyd yn oed yn y mannau mwyaf heriol, fel Chelmsford a Ranby, yn gallu trawsnewid y ddarpariaeth ar gyfer darllen i'r carcharorion sydd o dan eu gofal. Yn bwysicaf oll yn y carchardai hyn, ac mewn mannau eraill a oedd yn dangos esiampl eithriadol, fel Hatfield, Rye Hill a Frankland, roedd arweinwyr wedi hyrwyddo pwysigrwydd darllen fel elfen hanfodol mewn adsefydlu.

Mewn gormod o'r carchardai rydym yn eu harolygu, mae'r flaenoriaeth a roddwyd i ddarllen ymhell o fod yn ddigon. Rwyf yn annog llywodraethwyr a'r gwasanaeth carchardai i ddysgu gwersi o'r canfyddiadau o'r carchardai gorau yn yr adroddiad hwn a gwella'r ddarpariaeth i'r rheini sydd o dan eu gofal, fel y gallant greu carchardai mwy sefydlog sy'n lleihau'r risg o aildroseddu yn y dyfodol.

**Charlie Taylor**
Prif Arolygydd Carchardai
Tachwedd 2025

# Cefndir

Yn 2022, roedd adolygiad o addysg darllen mewn carchardai a gynhaliwyd ar y cyd gan Ofsted ac Arolygiaeth Carchardai EF, a'i gyhoeddi yn y ddogfen 'Prison Education: A review of reading education in prisons', wedi nodi diffygion difrifol o ran addysgu darllen ar draws yr ystad garchardai. Roedd yr adolygiad wedi tynnu sylw at broblemau a oedd yn cynnwys asesiadau annigonol o allu darllen, methu â mesur cynnydd a mynediad gwael at lyfrgelloedd. Cafwyd hefyd mai ychydig o'r staff addysgu a oedd wedi'u hyfforddi i addysgu carcharorion i ddarllen, ac nad oedd darllen yn cael blaenoriaeth yn y system garchardai. Yn bwysicaf oll, carcharorion â'r angen mwyaf oedd yn cael y lleiaf o gymorth gan amlaf.

Roeddem wedi galw ar y gwasanaeth carchardai, llywodraethwyr a darparwyr addysg i gymryd camau brys i roi sylw i'r nifer mawr o bryderon a godwyd yn yr adroddiad. Roedd y methiant i addysgu carcharorion i ddarllen, neu i wella llythrennedd darllenwyr gwan, yn golygu bod cyfle pwysig iawn yn cael ei golli. Roedd yn golygu bod nifer mawr yn methu â dysgu'r sgiliau hanfodol a fyddai'n eu helpu i ailsefydlu, i gael gwaith ac i lwyddo mewn bywyd ar ôl eu rhyddhau.

Mewn adolygiad dilynol, 'The quality of reading education in prisons: one year on' (2023), er canfod bod rhywfaint o gynnydd wedi digwydd, cafwyd bod gwelliannau mewn meysydd allweddol fel sgrinio, asesu, darparu adnoddau a datblygu strategaethau wedi bod yn rhy araf. Er bod y rhan fwyaf o garchardai wedi mabwysiadu strategaeth darllen, roedd y gweithredu'n anghyson, gyda sgrinio ac asesu annigonol, dim digon o staff arbenigol a mynediad gwael at lyfrgelloedd yn parhau.

Unwaith eto, galwyd ar lywodraethwyr i roi strategaeth darllen effeithiol ar waith heb ragor o oedi. Gwnaethom argymhellion newydd ar gyfer asesu sgiliau darllen yn briodol, hyfforddi mwy o athrawon mewn ffoneg, gwella'r mynediad at lyfrgelloedd carchardai, a hyrwyddo darllen yn well ym mhob rhan o'r carchar.

Ddwy flynedd yn ddiweddarach, rydym wedi ailedrych ar y pwnc pwysig hwn. Er mai peth cyffredin yn ystod ein harolygiadau rheolaidd yw gweld nad yw darllen mewn carchardai yn cael digon o flaenoriaeth eto, rydym wedi dewis carchardai lle mae llythrennedd yn cael ei hybu. Bwriad yr adroddiad diweddaraf hwn yw tynnu sylw at ymarfer sy'n effeithiol yn ogystal â nodi rhwystrau i gynnydd sy'n bod o hyd.

## Pwysigrwydd darllen


Mae anawsterau darllen gan nifer mawr o garcharorion wrth gyrraedd y carchar. Yn ein harolygon o garcharorion a gynhaliwyd yn y flwyddyn ddiwethaf, dywedodd 45% o garcharorion wrthym fod ganddynt angen mewn perthynas â darllen.

Roedd profiadau'r carcharorion hyn yn waeth o lawer na'r rheini a oedd heb angen cymorth i ddarllen. Roedd darllenwyr gwan yn fwy tebygol o ddweud eu bod yn teimlo'n anniogel, o fod wedi cael eu cadw ar wahân neu eu ffrwyno, ac o fod wedi cael profiadau gwaeth yn y rhan fwyaf o'r meysydd yn ein profion carchar iach.

**Mae'r holl ffeithluniau yn dangos canran y carcharorion a roddodd ateb cadarnhaol i'r cwestiynau mewn arolygon a gynhaliwyd mewn carchardai oedolion yng Nghymru a Lloegr, 2024–25.**


Carcharorion a oedd ag angen cymorth gyda'u darllen.

Carcharorion a oedd heb angen cymorth gyda'u darllen.




Ffynhonnell: Arolygon o rai dan gadwad gan Arolygiaeth Carchardai EF


Mae lefel isel o allu o ran darllen yn gallu cyfyngu'n sylweddol ar allu carcharorion i ddelio â bywyd yn y carchar. Er enghraifft, byddent yn gallu ei chael yn anodd deall gwybodaeth ysgrifenedig sy'n egluro elfennau allweddol ym mywyd y carchar, fel deunyddiau cynefino. Gellir wynebu her hefyd wrth geisio deall llythyrau oddi wrth y teulu a gohebiaeth gyfreithiol, bwydlenni neu destunau crefyddol, ac wrth lenwi ffurflenni a cheisiadau sydd eu hangen yn aml yn y carchar i gael gafael ar wasanaethau hanfodol fel gofal iechyd.




Ffynhonnell: Arolygon o rai dan gadwad gan Arolygiaeth Carchardai EF

Gall hyn beri gofid a rhwystredigaeth, a gwneud i'r rheini a effeithir fod yn haws eu gwylltio neu'n fwy agored i niwed, gan eu rhoi mewn perygl o fynd i helynt neu o gael eu hynysu. Mae hefyd yn eu hatal rhag cymryd rhan yn llawn mewn gweithgarwch buddiol sy'n cael ei gynnig gan y carchar, yn cynnwys addysg a hyfforddiant. Os nad oes ganddynt y gallu i ddarllen yn fedrus, gall yr amser a dreulir yn y carchar fod yn heriol ac yn ddi-fudd.

Roedd yr ymatebion a gawsom ym mhob rhan o'n harolwg yn fwy cadarnhaol o lawer yn achos y 61% a ddywedodd eu bod yn cael cymorth gyda'u darllen o gymharu â'r 39% nad oeddent yn cael help.





Ffynhonnell: Arolygon o rai dan gadwad gan Arolygiaeth Carchardai EF

Mae'n bwysig nodi bod diffyg sgiliau darllen hefyd yn cyfyngu ar allu carcharorion i ddelio â bywyd ar ôl gadael y carchar. Er enghraifft, mae llenwi ffurflenni i agor cyfrif banc neu wneud cais am swydd yn dod yn anodd neu hyd yn oed yn amhosibl. Mae hyn yn ei gwneud yn fwy tebygol y byddant yn ddi-waith ar ôl eu rhyddhau ac mae'n golygu bod cyfle pwysig yn cael ei golli i helpu i'w gwneud yn llai tebygol y bydd pobl yn aildroseddu. Yn ein harolygon, roedd y rheini ag angen o ran darllen a gafodd gymorth yn fwy tebygol o lawer o ddweud bod eu profiadau yn y carchar wedi peri iddynt fod yn llai tebygol o droseddu yn y dyfodol.

Carcharorion a oedd ag angen cymorth gyda'u darllen.

Carcharorion a oedd heb angen cymorth gyda'u darllen.

**Os ydych yn disgwyl cael eich rhyddhau yn y tri mis nesaf, oes angen help arnoch i gael trefn ar y canlynol erbyn i chi gael eich rhyddhau?**




Ffynhonnell: Arolygon o rai dan gadwad gan Arolygiaeth Carchardai EF

# Trosolwg

Roedd y gwaith maes ar gyfer yr adroddiad hwn wedi dangos bod y darlun yn un amrywiol: mewn rhai carchardai, gwelsom dystiolaeth gynhwysfawr o ddiwylliant darllen bywiog a oedd wedi'i seilio ar systemau clir ar gyfer asesu, addysgu a sicrhau cynnydd. Lle roedd darllen yn cael lle amlwg ym mhob rhan o'r carchar, roedd newid pendant a chadarnhaol yn y diwylliant: roedd staff a charcharorion fel ei gilydd yn gweld gwerth mewn cyflawniadau darllen, yn dathlu cynnydd ac yn ei gydnabod yn sgil bywyd hanfodol. Mewn carchardai eraill, roedd darllen yn rhywbeth ymylol yng ngwaith y carchar a heb ei weld yn ffordd hanfodol i helpu carcharorion.

Yn ystod yr adolygiad thematig hwn roeddem wedi nodi chwe elfen allweddol sy'n cyfrannu at strategaeth darllen effeithiol:

## Rôl arweinwyr

- Roedd arweinyddiaeth yn elfen ganolog wrth sefydlu a chynnal diwylliant darllen effeithiol. Yn y carchardai gorau, roedd llywodraethwyr ac uwch arweinwyr yn darparu cymorth gweladwy, cyson a hirdymor, gan sicrhau bod y llyfrgell a darparwyr addysg yn gweithredu i gyflawni nod cytûn.
- Roedd arweinwyr yn dangos eu hymrwymiad drwy gymryd rhan eu hunain mewn mentrau darllen a thrwy gydnabod cyflawniadau'n gyhoeddus, gan ategu'r pwyslais bod llythrennedd yn rhan werthfawr o fywyd y carchar.
- Byddent yn defnyddio data i werthuso'r effaith o fentrau ac yn eu hystyried wrth wneud penderfyniadau am y ddarpariaeth. Drwy gynnal cyfarfodydd trawsadrannol, rheolaidd a strwythurau atebolrwydd clir, daliwyd sylw ar gynnydd a sicrhau bod cymorth ar gael i'r rheini a oedd â'r angen mwyaf.
- Roedd arweinwyr effeithiol yn deall sut roedd gallu darllen y carcharorion yn effeithio ar eu hymddygiad, eu cyfranogiad mewn gweithgareddau a'u canlyniadau adsefydlu. Roedd rolau uwch, yn enwedig penaethiaid addysg, sgiliau a gwaith, yn chwarae rhan hanfodol wrth gydgysylltu'r ddarpariaeth a chysoni strategaethau ag anghenion y carcharorion.

## Diwylliant darllen carchar cyfan

- Gwelsom garchardai a oedd wedi meithrin diwylliant cadarnhaol lle roedd darllen yn rhan annatod o'r system ac yn cael ei hyrwyddo ar bob lefel. Roedd staff mewn lifrai yn deall bod darllen yn bwysig ac yn ei hyrwyddo. Roedd cyfleoedd i ddarllen yn cael eu hysbysebu ac yn hygyrch ym mhob rhan o'r carchar ar gyfer pob lefel gallu, ac roedd carcharorion yn cael eu cymell, eu gwobrwyo a'u canmol am gymryd rhan.
- Roedd llywodraethwyr ac uwch arweinwyr yn sicrhau bod athrawon, staff llyfrgell a darparwyr addysg yn cydweithio'n effeithiol. Byddai 'cyfarfodydd darllen' yn cael eu cynnal yn rheolaidd a'u cofnodi, ac yn cynnwys arweinwyr o bob rhan o'r carchar, yn cynnwys diogelwch, gweithdai, gofal iechyd, ffydd, ymweliadau, gweithwyr allweddol a'r uned rheoli troseddwyr (OMU), i fonitro gweithrediadau a dal staff yn atebol am gynnydd, yn enwedig ar gyfer y darllenwyr lleiaf galluog.

- Roedd yr holl garchardai yr ymwelwyd â nhw yn cydnabod y pwysigrwydd o ddatblygu strategaeth darllen a oedd yn hyrwyddo pwysigrwydd darllen. Er hynny, mewn gormod o garchardai roedd y gweithredu ar y strategaeth wedi bod yn anghyson neu'n rhy araf, a phrin oedd yr effaith gadarnhaol ar garcharorion.

## Adnabod, cynorthwyo a monitro

- Yn y carchardai mwyaf effeithiol, roedd systemau cadarn ar waith ym mhob achos i adnabod a chynorthwyo'r rheini a oedd â'r anghenion mwyaf. Yn y carchardai hyn, roedd yr arweinwyr yn sicrhau bod yr holl garcharorion yn cael eu sgrinio am allu darllen, gydag ailsgrinio cyson i fonitro cynnydd y rheini a oedd ag angen help. Roedd llwybrau atgyfeirio clir yn cael eu deall gan staff ar bob lefel. Byddai ymyriadau'n cael eu cynllunio'n ofalus a'u cydgysylltu, ac roedd cynnydd ar ddarllen yn cael ei ddilyn drwy gyfarfodydd ar gyfer y carchar cyfan. Roedd hyn yn creu'r disgwyliad bod yr holl staff yn rhannu'r cyfrifoldeb am wella.
- Yn yr holl garchardai yr ymwelwyd â nhw, gwelsom fod asesiadau darllen ar waith, a dull cyson o sgrinio ac adnabod y rheini a oedd â'r angen mwyaf am gymorth. Fodd bynnag, os nad oedd hyn yn rhan o ddull gweithredu ar ddarllen i'r carchar cyfan, nid oedd y systemau adnabod hyn yn gywir nac yn effeithiol ym mhob achos.

## Ymyriadau

- Yn y sefydliadau gorau, roedd ymyriadau ar waith i gynorthwyo'r rheini a oedd yn cael anhawster i ddarllen. Roedd Ymddiriedolaeth Shannon, sef elusen sy'n helpu carcharorion i fentora eu cymheiriaid wrth ddarllen, yn gweithredu mewn nifer o garchardai ac yn darparu gwasanaeth gwerthfawr. Yn y safleoedd gorau, roedd yn rhan o ddarpariaeth ehangach a chydgysylltiedig, yn cynnwys addysgu strwythuredig seiliedig ar ffoneg wedi'i ddarparu gan athrawon addysg carchardai hyfforddedig, a rhaglenni allgymorth neu raglenni yn yr ystafell ddosbarth wedi'u haddasu yn ôl anghenion y rheini sydd heb allu darllen. Lle roedd y ddarpariaeth yn fwyaf effeithiol, roedd yr ymyriadau i gynorthwyo darllenwyr yn cael eu gweld yn werthfawr ac yn llwybr pwysig at adsefydlu yn hytrach na dim ond llwybr at addysg ffurfiol. Roedd statws, blaenoriaeth ac amlygrwydd yn cael eu rhoi i fentrau seiliedig ar y teulu, fel Raising Readers a Storybook Dads/Mums, a oedd yn cael eu gweld yn rhan werthfawr o'r diwylliant adsefydlu.
- Yn y carchardai lleiaf effeithiol, roedd darllenwyr gwan yn cael eu hatgyfeirio i Ymddiriedolaeth Shannon heb unrhyw gymorth gan athrawon na monitro ar gynnydd. Mewn llawer achos, roedd mentoriaid yn dweud wrthym na fyddent yn cael dod o'u celloedd i gynorthwyo eu cleientiaid neu nad oedd ystafell addas ar gael.
- Nid oedd y gwaith o gynllunio, darparu a monitro ymyriadau darllen effeithiol i'r darllenwyr lleiaf profiadol yn cael ei gyflawni ym mhob achos. Lle roedd gwasanaethau addysg wedi cyflogi athrawon darllen arbenigol, roedd y swyddi hyn un ai wedi cael eu torri neu roeddent o dan fygythiad am nad oedd y cyllid yn ddigonol.

## Y llyfrgell

- Lle roedd llyfrgelloedd yn agored, yn fywiog ac wedi'u hintegreiddio ym mywyd y carchar, roeddent yn chwarae rhan ganolog wrth greu diwylliant darllen. Roedd rhwystrau i fynediad wedi'u dileu: roedd yr oriau agor yn caniatáu ymweliadau gan y rheini sydd mewn gwaith ac roedd amrywiaeth fawr o destunau ar gael at bob chwaeth a lefel ymysg y darllenwyr a'r rhain yn cael eu hysbysebu. Roedd rhaglenni digwyddiadau, yn cynnwys ymweliadau gan awduron, gweithdai ysgrifennu a gweithgareddau cysylltiedig â llesiant, y teulu a sgiliau, yn hybu cyfranogi gan ddarllenwyr ar bob lefel. Agwedd bwysig oedd bod y digwyddiadau hyn yn cael eu cynnal yn rheolaidd a bod system y carchar yn galluogi carcharorion i fynd iddynt yn ddiwahân.

## Cyfleoedd gweladwy i ddarllen ym mhob rhan o'r carchar

- Mewn carchardai sydd â diwylliant darllen cadarn, roedd y cyfleoedd i ddarllen yn weladwy ym mhob man. Roedd adnoddau'n cael eu dethol a'u cadw, a'r rhain yn cynnwys llyfrau, cylchgronau, posau, gemau geiriau ac adnoddau digidol. Roedd darllen yn cael ei hyrwyddo ar bob cyfle posibl: mewn gweithdai a dosbarthiadau addysg, yn yr adeiniau, mewn lleoliadau iechyd ac yn y gampfa. Roedd mentrau i ddarparu llyfrau i garcharorion, fel First Night Books a Give a Book, yn effeithiol os oeddent yn cael eu rhedeg yn gyson a'u monitro o ran eu heffaith.

Ceir crynodeb o'r elfennau hyn yn Atodiad I sydd yn rhestr wirio y gall arweinwyr ei defnyddio i'w helpu i ddatblygu a gwella eu strategaeth darllen. Rydym yn galw ar yr holl lywodraethwyr i gynnwys y chwe elfen allweddol a nodwyd gennym ar sail rhai o'r arferion gorau a welsom mewn carchardai ac i roi strategaeth darllen effeithiol ar waith heb ragor o oedi.

# Adran 1  Rôl arweinwyr yn y strategaeth darllen

1.1 Roedd yr ymrwymiad gweladwy i'r strategaeth darllen ymysg arweinwyr yn cael ei amlygu mewn nifer o ffyrdd. Byddent yn bresennol mewn digwyddiadau grŵp darllen, yn cymryd rhan mewn mentrau fel sesiynau i'w ffilmio eu hunain yn darllen yn uchel ar gyfer fideos ar liniaduron mewn celloedd (Launchpad), ac yn sgwrsio â charcharorion am beth roeddent yn ei ddarllen. Roeddent hefyd yn dathlu ac yn rhoi gwobrau'n gyhoeddus am gyflawniadau darllen, gan ategu'r syniad bod llythrennedd yn rhan werthfawr ac annatod o fywyd y carchar.

1.2 Roedd arweinwyr effeithiol yn gwneud mwy na chefnogi'r strategaeth; byddent hefyd yn defnyddio data i graffu ar ei llwyddiant ac yn addasu dulliau o weithredu os oedd angen. Er enghraifft, yn Chelmsford, roedd adolygiad o ymweliadau â'r llyfrgell ac ystadegau am fynediad wedi arwain at benodi swyddog llyfrgell amser llawn, gan sicrhau bod blaenoriaeth yn cael ei rhoi i fynychu'r llyfrgell a bod mynediad ar gael gyda'r hwyr. Fel hyn, roedd y penderfyniadau gan arweinwyr ar newidiadau o ran y system a staffio wedi arwain yn uniongyrchol at well cyfleoedd i ddarllen i garcharorion.

1.3 Yn y carchardai mwyaf llwyddiannus, roedd yr arweinwyr yn gweld darllen yn elfen hanfodol mewn diogelwch, gweithgarwch buddiol ac adsefydlu. Roeddent wedi trefnu nifer o wahanol ddulliau o weithredu a oedd yn hyrwyddo darllen ym mhob rhan o'r carchar ac nid oeddent yn dibynnu'n llwyr ar y ddarpariaeth addysg o dan gontract. Roedd rôl y pennaeth addysg, sgiliau a gwaith yn yr uwch dîm arwain yn neilltuol o bwysig. Lle roedd y rôl hon yn sbarduno'r strategaeth, roedd y ddarpariaeth wedi'i theilwra'n well i gwrdd â'r anghenion penodol yn y carchar, ac roedd y cydgysylltu rhwng adrannau'n gryfach.

**Datblygu strategaeth darllen effeithiol**

Yn Ranby, roedd y pennaeth addysg, sgiliau a gwaith wedi arwain adolygiad a oedd wedi nodi bylchau sylweddol yn y cymorth. Mewn ymateb i hyn, roedd y carchar wedi ffurfio tîm darllen yn cynnwys y darparwr addysg, y llyfrgell, staff adsefydlu, rheolwr cymorth niwroamrywiaeth a'r mentor carcharorion arweiniol. Wrth gwrdd yn wythnosol, roedd y tîm wedi datblygu strategaethau clir a hawdd eu deall i staff a charcharorion, gyda mewnbwn gan y carcharorion eu hunain, ac wedi sicrhau bod darllen yn cael ei weld yn angen sylfaenol ym mhob rhan o'r system.

1.4 Roedd cyfarfodydd darllen rheolaidd, uchel eu statws hefyd yn sail i arweinyddiaeth lwyddiannus. Roedd y cyfarfodydd hyn yn cael eu cofnodi, roeddent yn rhai trawsadrannol ac roeddent yn canolbwyntio ar atebolrwydd am gynnydd, yn enwedig ymysg y darllenwyr lleiaf galluog. Yn Frankland, er enghraifft, byddai cyfarfodydd darllen misol yn dilyn cynnydd pob un o'r carcharorion a ddynodwyd. Roedd swyddogion, gweithwyr allweddol a phenaethiaid preswylio i gyd yn

cael eu dal yn atebol drwy gynlluniau gweithredu unigoledig a oedd yn cael eu hadolygu i sicrhau bod cymorth yn cael ei ddarparu. Roedd y strwythur hwn yn cynnal diwylliant lle roedd darllen yn cael ei weld yn rhan annatod o fywyd y carchar – drwy gystadlaethau, arddangosiadau a mynediad eang at lyfrau – a lle roedd modd rhoi sylw'n fuan i rwystrau penodol, fel mynediad at ymyriadau.

# Adran 2 Datblygu diwylliant carchar cyfan sy'n amlygu pwysigrwydd darllen

1.5 Mewn rhai carchardai, roedd camau'n cael eu cymryd i gymell, gwobrwyo a dathlu cyfranogiad mewn darllen, heb ystyriaeth i allu, gan greu ymdeimlad cyffredin o gyflawniad a balchder.

1.6 Roedd carchar Rye Hill wedi sefydlu sesiynau Drop Everything and Read (DEAR). Seibiannau byr (15 munud) oedd y rhain a fyddai'n cael eu neilltuo dair gwaith yr wythnos ar gyfer darllen gan bawb – yn staff ac yn garcharorion. Roedd y trefniant syml ond effeithiol hwn yn ennyn sgyrsiau am ddarllen ac yn dangos yn weladwy ei fod yn cael ei weld yn werthfawr gan y carchar cyfan.

1.7 Roedd staff ar bob lefel yn cyflawni rôl weithredol. Yn ddieithriad, roeddent yn deall ac yn hyrwyddo pwysigrwydd darllen, yn ogystal â'u rôl eu hunain o fewn strategaeth darllen y carchar. Yn Ranby, er enghraifft, roedd Llwybr Darllen Ranby yn cael ei gynnwys yn hyfforddiant sefydlu'r staff, gan sicrhau bod swyddogion yn gwybod pam roedd darllen yn bwysig, sut i adnabod carcharorion a oedd ag angen cymorth, a sut i'w hatgyfeirio i gael help. Roedd staff ym mhob rhan o'r carchar yn cael eu dynodi'n 'hyrwyddwyr darllen' er mwyn cynnal momentwm a brwdfrydedd.

1.8 Mewn carchardai eraill, roedd arweinwyr yn gweithio'n galed i wreiddio darllen yn niwylliant y staff. Yn Frankland, Rye Hill, Chelmsford a Ranby, roedd pwysigrwydd darllen yn cael ei amlygu drwy hyfforddiant sefydlu'r staff, briffio dyddiol a hyfforddiant i'r staff cyfan. Byddai staff yn cael diweddariadau cyson am gynnydd ar strategaeth darllen y carchar, gan ategu'r flaenoriaeth gyffredinol a oedd yn cael ei rhoi iddi. Roedd offer clir, fel systemau bandio llyfrau (Rye Hill, gweler paragraff 6.3) a phosteri llwybrau atgyfeirio (Ranby, gweler paragraff 3.5), yn helpu staff i deimlo'n hyderus am eu rôl a sut i weithredu pan oedd angen darparu cymorth.




**Darparu hyfforddiant i staff drwy ddefnyddio deunyddiau hyfforddi cenedlaethol, Ranby**

1.9 Roedd y carchardai mwyaf effeithiol yn dangos eu hymrwymiad yn glir iawn, gyda datganiad pendant o fwriad a oedd yn cael ei hysbysebu ym mhob rhan o'r sefydliad. Yn Hatfield, er enghraifft, roedd staff gweithredol yn yr uned rheoli troseddwyr, yr unedau preswyl a'r gweithdai i gyd yn pwysleisio bod llythrennedd yn flaenoriaeth gyffredin: "Mae pawb yn gwybod bod Hatfield yn hoffi darllen." Yn y sesiynau cynefino i garcharorion newydd, byddai swyddogion yn tynnu sylw at y llyfrgell, yn cymell dynion i ymuno, ac yn egluro sut byddai darllen yn gallu eu helpu yn eu bywydau y tu allan i'r carchar ac i gael cyfleoedd yn y dyfodol. Roedd gweithgareddau seiliedig ar lythrennedd yn cael eu cynnwys mewn pecynnau cynefino, a byddai staff yn atgyfeirio achosion yn ddi-oed lle roedd angen cymorth ychwanegol ar garcharorion.




**‘Mae Hatfield yn hoffi darllen’**

1.10 Yn y carchardai a welsom lle roedd y strategaeth darllen wedi ymwreiddio, roedd y cyfranogi gan garcharorion yn allweddol. Yn Ranby, roedd y mentoriaid cymheiriaid sy’n gweithio yn y llyfrgell yn cymryd rhan yng ngrŵp Strategaeth Darllen y carchar ac yn cyfrannu’n gyson at ei waith darparu, adolygu a datblygu. Yn Send a Rye Hill, roedd swyddi uchel eu statws am dâl ar gyfer carcharorion a oedd yn cydgysylltu, yn gweinyddu ac yn darparu ymyriadau darllen.

1.11 Yn y carchardai mwyaf llwyddiannus, nid oedd y diwylliant darllen wedi’i gyfyngu i’r ystafell ddosbarth neu’r llyfrgell, ac roedd yn cynnwys llawer mwy na hysbysiadau, posteri a mannau i storio llyfrau.

**Dull carchar cyfan o hyrwyddo darllen**

Roedd staff yn Chelmsford yn cymryd camau i ymgysylltu â charcharorion o'r dechrau drwy eu holi am ddarllen a chynnig llyfr ar gyfer eu noson gyntaf. Byddai anghenion darllen yn cael eu trafod yn y cyfarfodydd briffio gweithredol yn y bore, yn ogystal â'r cyfarfodydd dalfa fwy diogel ac ailsefydlu. Roedd darllenwyr â lefel gallu is yn cael blaenoriaeth mewn gwaith allweddol (gweler y Rhestr termau), gan gydnabod eu hanghenion a'r ffactorau a allai eu gwneud yn agored i niwed. Yn ogystal ag edrych ar anghenion darllen mewn cyfarfodydd rheoli achosion drwy asesu, gofal yn y ddalfa a gwaith tîm (ACCT) ac adolygiadau'r cynllun herio, cynorthwyo ac ymyrryd, byddai'r tîm diogelwch yn hyrwyddo llesiant y carcharorion drwy ddarllen, ysgrifennu a chreadigedd gyda chylchlythyr diogelwch a chystadlaethau a thrwy gyhoeddi llyfrynnau o gerddi am iechyd meddwl. Fel y dywedodd y llywodraethwr: "Mae'n anodd mesur yr effaith ar sefydlogrwydd y carchar, ond rydw i'n gwybod ei fod yn gwneud gwahaniaeth".

1.12 Mewn carchardai lle nad oedd yr holl staff yn deall neu'n gwybod am y strategaeth darllen neu sut roedd yn cael ei gweithredu, roedd yr effaith yn llai o lawer ac yn annhebygol o gael dylanwad cadarnhaol cyffredinol ar garcharorion.

1.13 Yn yr achosion hyn, gwelsom strategaethau darllen a oedd yn ymddangos yn dda ar bapur, ond a oedd heb eu troi'n arlwy addysgu cynhwysfawr neu hawdd ei gael i garcharorion, yn enwedig y rheini a oedd yn cael mwy o anhawster i ddarllen.

# Adran 3 Nodi a deall lefelau darllen y boblogaeth garchardai

1.14 Yn yr holl garchardai yr ymwelwyd â nhw yn ystod yr adolygiad thematig hwn, roedd systemau ar waith i ddynodi carcharorion a oedd ag angen cymorth gyda'u darllen.

1.15 Y cam cyntaf yn y systemau hyn, gan amlaf, oedd cwblhau asesiad sgiliau gweithredol Basic and Key Skills Builder (BKSB) wrth dderbyn carcharorion. Os byddai carcharorion yn cael sgôr o dan Lefel 1 (y gallu i ddarllen ac ysgrifennu ar lefel sylfaenol, yn cyfateb i TGAU gradd 2 i 3), yna byddid yn gofyn iddynt gwblhau prawf sgrinio darllen pwrpasol a fyddai'n rhoi darlun mwy eglur o'u gallu. Y darparwr addysg fyddai'n casglu a chofnodi'r wybodaeth hon yn y lle cyntaf ac yn gweithredu ar ei sail.

1.16 Yn y carchardai lle cafwyd yr ymarfer mwyaf effeithiol, roedd y canlyniadau o'r asesiadau'n cael eu rhannu â grŵp darllen strategol y carchar a fyddai'n craffu arnynt. Roedd hyn yn galluogi uwch arweinwyr i gael dealltwriaeth cywir a chyfredol o anghenion y boblogaeth, ac i ddefnyddio'r data i gynllunio darpariaeth a gwerthuso effaith yr ymyriadau.

"Roedd gen i ADHD yn blentyn ac roeddwn i'n ei chael yn anodd canolbwyntio. Byddaf i'n rhoi'r gorau iddi pan aiff pethau'n rhy anodd. Mae llawer o bobl yn y fan hyn yn ei chael yn anodd ac yn teimlo cywilydd oherwydd hynny. Byddaf i'n gofyn am help. Does gen i ddim cywilydd am y peth."


Carcharor yn Abertawe

**Rhannu gwybodaeth**

Yn Frankland roedd canlyniadau'r sgrinio yn cael eu rhannu fel arfer â'r cydgysylltydd dysgu a sgiliau a phennaeth addysg, sgiliau a gwaith. Byddent yn sicrhau bod gweithwyr allweddol yn yr adeiniau yn cael gwybod am y rheini nad oeddent yn darllen a'r darllenwyr newydd dan eu gofal. Byddai'r staff yn cymryd camau i ddod i wybod am y rheini a oedd yn wynebu anawsterau o ran llythrennedd, yn cynnwys yn ystod y sesiynau cynefino, pan fyddai carcharorion a oedd heb allu i ddarllen cyfarwyddiadau syml yn cael eu hatgyfeirio'n ddi-oed i gael cymorth. Yn achos carcharorion a oedd wedi eu trosglwyddo, byddai gweithiwr cymorth myfyrwyr y darparwr addysg yn gwirio asesiadau blaenorol a chymwysterau drwy systemau cenedlaethol, ac yn cymryd camau dilynol gydag unigolion a oedd wedi methu â dod i sesiwn cynefino, fel y rheini yn yr uned rheolaeth a chynnydd. Roedd y dull hwn o weithredu yn sicrhau bod pob carcharor sydd ag anghenion llythrennedd yn cael ei ddynodi a'i atgyfeirio i gael y cymorth mwyaf priodol.

1.17 Yn Rye Hill, os oedd carcharorion yn cael sgôr o dan lefel benodedig yn y prawf sgrinio, byddent yn cael eu hailasesu ar ôl tri mis. Roedd cynnydd yn cael ei dracio a'i ddathlu: byddai'r rheini a oedd wedi codi i lefel uwch yn cael tystysgrifau a byddai'r canlyniadau'n cael eu rhannu yn y Grŵp Darllen. Roedd y broses hon nid yn unig yn creu cymhelliant, ond hefyd yn galluogi arweinwyr i addasu'r ddarpariaeth a thargedu ymyriadau'n fwy effeithiol.

1.18 Roedd rhai carchardai wedi cynnwys dulliau o asesu gallu darllen drwy hyfforddi gweithwyr allweddol, swyddogion adeiniau a staff eraill yn y system i sylwi ar anawsterau darllen a deall y broses ar gyfer atgyfeirio carcharorion i gael cymorth. Yn Ranby, roedd blwch postio wedi'i greu i dderbyn atgyfeiriadau drwy e-byst gan staff ar gyfer carcharorion y nodwyd eu bod ag angen o ran darllen. Roedd dulliau o'r fath yn cynyddu nifer y carcharorion a ddynodwyd, yn enwedig y rheini a oedd heb gwblhau sesiynau cynefino addysg, ac yn creu rhwyd achub a oedd yn ymestyn y tu hwnt i'r ystafell ddosbarth. Roedd disgwyl i'r holl staff rannu cyfrifoldeb dros lythrennedd ac roeddent yn cael eu dal yn atebol am helpu carcharorion i wella.




**Adnabod carcharorion sydd ag angen cymorth gyda'u darllen, Ranby**

1.19 Lle roedd systemau o'r fath heb eu datblygu i'r un graddau, roedd gan garchardai lai o ddealltwriaeth o faint yr angen yn eu poblogaeth. O ganlyniad i hyn, roedd llai o garcharorion yn cael eu hatgyfeirio i gael cymorth ac roedd llai o ymyriadau'n cael eu gweithredu.

# Adran 4 Cynllunio ymyriadau effeithiol i gynorthwyo darllenwyr newydd

1.20 Yn ein hadroddiad yn 2022 am ddarllen mewn carchardai, gwelwyd yn gyffredinol mai'r carcharorion sydd â'r angen mwyaf i wella eu darllen oedd yn cael y lleiaf o gymorth. Yn yr adolygiad hwn, gwelsom fod mwy o sylw yn cael ei roi i sicrhau bod y rheini sydd â'r angen mwyaf yn gallu cael gafael ar ymyriadau priodol ar gyfer darllen.

1.21 Fodd bynnag, nid yw'r ddarpariaeth hon yn gyson rhwng y carchardai a welsom, ac roedd y rheini sydd â'r angen mwyaf weithiau'n cael eu hatgyfeirio'n syth i wirfoddolwyr o blith y carcharorion yn hytrach na gallu mynd at athrawon hyfforddedig. Gwelsom enghreifftiau lle roedd y cwricwlwm addysg yn canolbwyntio'n bennaf ar sicrhau sgiliau gweithredol mewn Saesneg yn hytrach nag ar sicrhau bod carcharorion yn dysgu i ddarllen.

1.22 Mewn rhai carchardai, roedd athrawon darllen arbenigol a oedd wedi'u hyfforddi ac wedi cael profiad o addysgu i ddarllen. Lle roedd y rhain ar waith, gwelsom fod y ddarpariaeth ar gyfer addysgu darllenwyr newydd yn un effeithiol ac wedi'i thargedu. Roedd ymyriadau o'r fath yn fwyaf effeithiol o gael eu darparu'n rheolaidd (o leiaf dair gwaith yr wythnos) ar sail un-i-un a lle roeddent yn ategu math arall o ddarpariaeth neu'n helpu carcharorion i ymgymryd ag addysg neu waith. Roedd yr addysgu arbenigol ar gyfer darllen yn gweithio orau drwy fod yn rhan o arlwy addysg i'r carchar cyfan a oedd wedi'i drefnu'n haenau a'i integreiddio yn y strategaeth darllen, ac yn cydnabod yr angen am ddarparu cymorth arbenigol gan weithwyr profiadol a hyfforddedig i'r rheini a oedd â'r angen mwyaf.

**Rôl yr athro darllen arbenigol**

Yn Ranby, roedd athrawes darllen arbenigol benodedig yn chwarae rhan ganolog wrth gynorthwyo carcharorion sydd â'r lefelau isaf o lythrennedd. Drwy ddefnyddio traciwr strwythuredig yn gysylltiedig â data sgrinio, roedd yn pennu ymyriadau priodol ar gyfer y carcharorion, yn cynnwys y dull That Reading Thing sy'n seiliedig ar ffoneg, y byddai'n ei ddarparu'n rheolaidd ar sail un-i-un. Roedd ganddi ddigon o wybodaeth a phrofiad hefyd i ehangu cwmpas y dysgu i gynnwys gwaith ar rugledd ac amgyffred drwy ddefnyddio llyfrau 'Diffusion' (gweler y Rhestr termau). Sicrhaodd bontio rhwydd i ddosbarthiadau sgiliau gweithredol drwy gwblhau profion diagnostig a briffio staff addysgu Saesneg. Roedd ei dyfalbarhad a'i harbenigedd yn ei galluogi i oresgyn rhwystrau i ymgysylltu. Dywedodd carcharorion fod ei chysondeb a'i hanogaeth wedi newid eu bywyd, ac roedd un carcharor yn priodoli ei gynnydd i'r cymorth rheolaidd a manwl a gafodd ganddi. Heblaw am addysgu carcharorion unigol, roedd yn cael cefnogaeth gan yr arweinwyr i feithrin cysylltiadau cryf â'r staff mewn gweithdai a blociau tai a hefyd â mentoriaid Ymddiriedolaeth Shannon, gan sicrhau bod yr holl staff yn deall eu rolau o ran hyrwyddo darllen.

1.23 Fodd bynnag, lle roedd gwasanaethau addysg wedi cyflogi athrawon darllen, gwelsom un ai bod y swyddi hyn wedi'u torri'n ddiweddar neu eu bod o dan fygythiad am fod y cyllid yn annigonol. Roedd hyn yn peryglu cynnydd y carcharorion a oedd â'r anghenion mwyaf.

"Roeddwn i'n gwneud cynnydd. Roeddwn i'n mynd yn well ac yn well, ond heb wneud dim ers hynny… Mae angen cael mwy nag un tiwtor achos does dim modd gwneud lle i bawb."

Carcharor yn Chelmsford

"O'r blaen, yr unig beth fyddwn i'n ei wneud oedd [codi dau fys]. Doedd dim ots gen i. X [athrawes darllen arbenigol] oedd yr un a wnaeth fy helpu. Roedd hi'n egluro pob dim ac yn fy helpu i sillafu. Roedd hi'n rhyfeddol. Wna' i byth anghofio beth mae hi wedi'i wneud i mi. Roeddwn i'n gaeth i sbeis. Roedd pawb yn troi cefn arnaf i. Wnaeth hi ddim troi cefn. Byddai hi'n holi amdanaf i bron pob dydd. Rydw i wedi gwella. Dydw i ddim yn cymryd dim byd. Gwnaeth hi ddangos ffordd gwbl wahanol i mi a ffordd i mi fy neall fy hun. Gwelais i fod gen i fwy yn fy mhen nag roeddwn i'n ei feddwl."

Carcharor yn Ranby

1.24 Lle roedd y ddarpariaeth ar ei gorau, gwelsom amrywiaeth o ymyriadau a oedd yn cynorthwyo'r rheini a oedd yn wynebu anhawster wrth ddarllen, rhai ohonynt y tu allan i'r ystafell ddosbarth. Yn yr achosion hyn, roedd rhaglen Ymddiriedolaeth Shannon yn elfen werthfawr a phwysig o hyd yn y ddarpariaeth, yn rhan o arlwy cydgysylltiedig

ehangach a oedd yn cynnwys addysgu strwythuredig wedi'i seilio ar ffoneg a ddarparwyd gan athrawon hyfforddedig.

**Rhaglenni Ymddiriedolaeth Shannon**

Yn Rye Hill ac yn Send roedd rhaglenni ag adnoddau da o dan ofal Ymddiriedolaeth Shannon a oedd wedi'u cydgysylltu a'u hintegreiddio yn y ddarpariaeth. Roedd lle amlwg i'r rhain yn y strategaeth darllen ac roedd cynnydd y carcharorion yn cael ei fonitro a'i adolygu'n rheolaidd. Roedd y mentoriaid wedi'u hyfforddi'n dda gyda digon o gefnogaeth a byddent yn cael mynediad i nifer o wahanol leoliadau ar adegau pan oedd modd iddynt ddarparu'r ymyriad heb beri stigma na phrofi ymyrraeth. Roedd hyn yn cynnwys sesiynau byr, rheolaidd y gellid eu cynnal mewn gweithleoedd neu fannau cymdeithasol, yn ôl angen a dewis y mentorai. Roedd carcharorion wedi nodi pa mor bwysig oedd hi fod y fenter yn wahanol ac ar wahân i'r arlwy addysg a'i bod yn cael ei harwain gan garcharorion.

"Rydw i'n debyg i sbwng yn sugno pob dim. Cefais i'r cyfle hwn ac rydw i wedi bachu arno. Byddaf i'n mynd â'r llyfrau adref ar gyfer fy merch, sydd yn ddyslecsig, a byddaf i'n mynd drwyddyn nhw fel y gwnaeth fy mentor. Rydw i wedi codi o lyfr lefel 1 i lefel 4. Rydw i'n dilyn cwrs ar straen ac yn cael llyfrynnau. Byddaf i'n eistedd yno ac yn eu darllen yn iawn."

Carcharor yn Ranby

1.25 Gwelsom dystiolaeth bod rhaglen Ymddiriedolaeth Shannon ar ei mwyaf effeithiol mewn carchardai lle roedd carcharorion yn aros yn hirach. Roedd yn llawer mwy anodd gweithredu'r fenter hon yn effeithiol lle roedd carcharorion yn aros am gyfnodau byr, fel roeddent mewn carchardai derbyn, a lle roedd yn fwy anodd sicrhau cysondeb o ran mentoriaid a chynnal y rhaglen yn rheolaidd.


1.26 Gwaetha'r modd, roeddem yn dal i ddod ar draws carchardai lle mai rhaglen Ymddiriedolaeth Shannon oedd yr unig ymyriad a oedd ar gael i'r darllenwyr gwannaf. Nid oedd y carcharorion hyn yn cael cymorth gan athrawon yn y carchar ac roedd eu cynnydd yn gyfyngedig.

"Dydw i ddim yn cael rhaglen Ymddiriedolaeth Shannon. Dydw i ddim yn cael llawer o gymorth gan ei fod ef yn gweithio yn y prynhawn ac rydw i'n cael addysg yn y bore. Rydw i eisiau cael mwy o help."

Carcharor yn Chelmsford

1.27 Yn yr achosion mwyaf effeithiol, roedd ymyriadau i gynorthwyo darllenwyr yn cael eu gweld yn werthfawr ac yn llwybr pwysig at adsefydlu yn hytrach na ffordd at addysg ffurfiol yn unig. Roedd mentrau seiliedig ar y teulu, fel Raising Readers a Storybook Dads/Mums, yn cael blaenoriaeth, statws a lle amlwg, ac yn cael eu

gweld yn rhan werthfawr o’r diwylliant adsefydlu; mewn llawer achos, roeddent yn cymell y carcharorion i ddysgu, ymarfer a gwella eu darllen.




**Y fenter Story Book Dads, Chelmsford**

## Darllen ar gyfer adsefydlu

Roedd carcharor a oedd yn cwblhau dedfryd hir yn Rye Hill wedi byw rhan helaeth o’i oes heb y gallu i ddarllen. Gyda chymorth gan fentoriaid, grwpiau llyfrau a rhywfaint o addysg, roedd wedi codi o lefel un i lefel dau yn ei brofion sgrinio darllen. Dywedodd wrthym: “Rydw i wedi bod ar hyd fy oes heb fod eisiau darllen, ond rydw i am fod mewn gwell sefyllfa erbyn i mi gael fy rhyddhau, fel y byddaf i’n gallu sefyll ar fy nhraed fy hun.”

# Adran 5 Rôl llyfrgell y carchar

1.28 Yn y carchardai a wnaeth yr argraff fwyaf arnom yn ystod ein hymweliadau, roedd y llyfrgell yn chwarae rhan ganolog wrth greu, datblygu a chynnal diwylliant darllen. Yn ein harolwg, roeddem wedi cymharu profiad y carcharorion a oedd yn gallu mynd i'r llyfrgell o leiaf unwaith yr wythnos â phrofiad y rheini nad oeddent. Roedd y canfyddiadau'n dangos bod y gwahaniaeth yn syfrdanol, a bod ymateb y rheini sy'n cael mynediad gwell i lyfrgelloedd yn fwy cadarnhaol o lawer ym mron pob maes yn ein harolwg o garcharorion. Roedd ymateb y rheini a ddywedodd fod dewis digon eang o ddeunyddiau llyfrgell at eu chwaeth a'u gallu hefyd yn fwy cadarnhaol o lawer am nifer o agweddau ar fywyd y carchar. Mae'r llyfrgell yn adnodd hanfodol ac mae'n gallu cael effaith bendant ar bob elfen ym mywyd y carchar o ddydd i ddydd.

1.29 Roedd yr ymarfer mwyaf effeithiol wedi'i seilio ar ymrwymiad gweladwy gan yr uwch arweinwyr. Byddai staff ar draws y carchar yn cydweithio ar gamau i ddileu rhwystrau i fynediad. Roedd hyn yn cynnwys neilltuo swyddogion i reoli symudiadau carcharorion a hwyluso presenoldeb yn y llyfrgell, fel y gwelsom yn Chelmsford, a chreu rolau uchel eu statws i garcharorion i helpu i redeg y llyfrgell, fel y gwelwyd yn Rye Hill ac yn Low Newton. Y nod wrth bennu oriau agor y llyfrgell oedd cynyddu mynediad, yn cynnwys cyfleoedd i garcharorion a oedd yn ymgymryd â gwaith neu addysg. Lle nad oedd yn bosibl agor y llyfrgell gyda'r hwyr neu ar benwythnosau, roedd systemau effeithlon ar waith o dan oruchwyliaeth dda i ddosbarthu llyfrau y tu allan i'r oriau craidd er mwyn sicrhau nad oedd mynediad yn cael ei gyfyngu'n ormodol.

**Llyfrgell gynhwysol**

Yn Chelmsford, roedd y llyfrgell yn cynnig amrywiaeth dda o destunau ar gyfer pob lefel a diddordeb. Roedd y ddarpariaeth wedi'i strwythuro'n ofalus, gydag uned silffoedd bwrpasol yn cynnwys llyfrau darllen hawdd a rhai i ddechreuwyr, gyda chodau lliw er eglurder, a oedd wedi'i lleoli o'r neilltu yn agos i'r drws allan. Gwelwyd arddangosiadau a oedd yn cymell carcharorion i ehangu eu dewis o ddeunydd darllen, er enghraifft drwy dynnu sylw at awduron tebyg neu genres eraill fel barddoniaeth a llyfrau ffeithiol. Roedd mentrau ar y cyd â'r tîm addysg, yn cynnwys arddangosiad 'cerdd y mis', yn rhoi proffil gweladwy a chadarnhaol i lythrennedd ym mhob rhan o'r sefydliad. Yng ngeiriau'r llyfrgellydd, roedd y llyfrgell yn "lle llythrennedd i bawb", ac roedd yr ymarfer cynhwysol a chefnogol yn cadarnhau'r ethos hwn.

1.30 Roedd llyfrgelloedd sydd â rhan ganolog yn y strategaeth darllen yn cynnig rhaglenni digwyddiadau amrywiol a phwrpasol. Roedd y rhain yn cynnwys ymweliadau gan awduron, gwyliau darllen, gweithdai ysgrifennu a gweithgareddau cysylltiedig â llesiant, cynnwys y teulu a datblygu sgiliau. Agwedd bwysig oedd bod y digwyddiadau'n cael eu

cynnal yn rheolaidd a bod y system yn galluogi carcharorion i gael mynediad yn ddiwahân, gan sicrhau cyfranogiad da gan y boblogaeth gyfan.

1.31 Roedd y llyfrgell hefyd yn chwarae rhan hanfodol drwy gefnogi rhaglen darllen Ymddiriedolaeth Shannon. Lle roedd hyn ar ei fwyaf effeithiol, roedd y llyfrgell yn darparu man tawel lle roedd mentoriaid a’u mentoreion yn gallu cwrdd a gwneud defnydd o adnoddau. Roedd y darparu’n cael ei hwyluso ymhellach drwy waith staff a charcharorion hyfforddedig mewn rolau cymorth ychwanegol a oedd yn helpu i wreiddio’r rhaglen yn y diwylliant darllen ehangach yn y carchar.



**Llyfrgell yn Frankland**

1.32 Yn Frankland, roedd y llyfrgell yn cynnig rhaglen helaeth a oedd yn cynnwys grwpiau darllen, clybiau iaith, darllen dramâu ac arddangosiadau thematig i ddenu darllenwyr o bob gallu. Byddai’r llyfrgell yn cydnabod ac yn dathlu cynnydd ar lythrennedd, yn magu hyder carcharorion ac yn eu helpu i feithrin hunaniaeth gadarnhaol fel darllenwyr. Roedd mentoriaid y llyfrgell wedi’u hyfforddi mewn ffoneg ac yn nulliau Ymddiriedolaeth Shannon, ac roedd llwybrau atgyfeirio clir at y ddarpariaeth addysg.

**Darllen i fagu hyder**

Roedd un carcharor y buom yn siarad ag ef yn Frankland wedi dweud wrthym ei fod, wrth gyrraedd y ddalfa wyth mlynedd yn ôl, yn defnyddio cyffuriau'n rheolaidd ac nad oedd yn gallu darllen nac ysgrifennu. Yn ei flynyddoedd cyntaf yn y carchar, roedd ei hunan-barch yn isel ac roedd wedi ymddieithrio. Fodd bynnag, dros y 18 mis diwethaf, roedd wedi dechrau mynychu grŵp darllen wythnosol, ac roedd hyn wedi dod yn drobwynt iddo. Drwy gael cymorth ac anogaeth gyson, roedd nid yn unig wedi dysgu i ddarllen, ond hefyd wedi magu ymdeimlad newydd o hyder a hunan-barch, yn ogystal â chymryd rhan mewn addysg, ac ennill cymwysterau Saesneg a mathemateg ar lefel mynediad. Wrth fyfyrio ar y newid hwn, dywedodd fod dysgu i ddarllen wedi cael effaith enfawr ar ei fywyd: "Fyddech chi ddim yn fy nabod i nawr".

1.33 Mewn rhai carchardai, roeddem yn dal i weld rhwystrau a oedd yn cyfyngu ar fynediad rheolaidd gan garcharorion at gyfleusterau llyfrgell. Roedd hyn yn ganlyniad fel arfer i leoliad y llyfrgell yn y carchar a chyfyngiadau ar allu carcharorion i symud yn ddirwystr o gwmpas y safle. Mewn rhai achosion, nid oedd yr oriau agor yn caniatáu mynediad effeithiol at y gwasanaeth i weithwyr amser llawn. Roedd rhai carchardai yn dal i redeg systemau lle roedd angen gwneud cais i gael mynediad i'r llyfrgell, a'r rhain yn aml yn araf ac annibynadwy. Mewn un carchar yr ymwelwyd ag ef, roedd prinder cyllid ar gyfer contract y llyfrgell yn golygu nad oedd llyfrgellydd yno a bod y llyfrgell yn aml ar gau. Dywedodd nifer o garcharorion wrthym nad oedd y dewis o ddeunyddiau yn y llyfrgell yn cwrdd â'u hanghenion.

"Mae angen llyfrau mawr gwell, pethau doniol, ymarferiadau campfa, ceir, lluniau. Mae yna storïau tylwyth teg a does dim byd ymarferol."

Carcharor yn Ranby

# Adran 6 Gwneud i ddarllen fod yn weladwy ac yn hygyrch

1.34 Mewn carchardai lle roedd diwylliant darllen cadarn, roedd y cyfleoedd i ddarllen yn weladwy ym mhob man, yn fuddiol ac wedi'u gwreiddio yn y system drwyddi draw. Roedd darllen yn cael ei hyrwyddo drwy gyfrwng posteri, arddangosiadau am fuddion llythrennedd a hysbysebu digwyddiadau ar thema darllen. Agwedd bwysig oedd bod y cyfleoedd i fenthyca neu gyfnewid llyfrau heb gael eu cyfyngu i'r llyfrgell neu'r ystafelloedd dosbarth a'u bod ar gael mewn rhannau eraill o'r carchar.

1.35 Roedd y rhan fwyaf o'r carchardai wedi sefydlu cilfachau llyfrau neu lyfrgelloedd bach mewn adeiniau, mewn gweithdai, mewn mannau ymweld a mannau cymunedol eraill. Lle roedd y rhain yn fwyaf effeithiol, roedd systemau ar waith i'w cynnal a'u defnyddio. Byddai'r stoc yn cael ei churadu gan staff neu garcharorion er mwyn sicrhau bod amrywiaeth dda o ddeunyddiau ar gael, ei bod yn cael ei hadnewyddu'n rheolaidd a'i bod yn cwrdd â diddordebau a lefelau llythrennedd y boblogaeth. Yn ogystal â llyfrau, roedd yr adnoddau'n cynnwys cylchgronau, posau, gemau geiriau ac, os oedd yn bosibl, deunyddiau digidol.




**Cilfach lyfrau, Send**

**‘Mae Hatfield yn hoffi darllen’**

Yn Hatfield, sydd yn garchar agored, dywedodd yr arweinwyr nad oedd eu dull o weithredu yn dibynnu ar ddarparwyr allanol a’i fod yn seiliedig, yn hytrach, ar weledigaeth fewnol gadarn ar gyfer hyrwyddo darllen. Er gwaethaf pwysau ariannol, roedd llyfrau’n cael eu gosod ym mhob adain ac mewn mannau cymunol ochr yn ochr â setiau teledu a byrddau chwaraeon, fel bod darllen yn rhan weladwy a gwerthfawr o fywyd pob dydd. Roedd staff yn gosod esiampl o ran ymddygiad darllen, yn cynnwys arweinwyr gweithdai a fyddai’n dod â’u llyfrau eu hunain i’r carchar ac yn cadw casgliadau bach mewn mannau gweithio. Roedd deunyddiau darllen ar gael yn rhwydd ym mhob rhan o’r safle, yn cynnwys mewn ystafelloedd cymdeithasu, mannau staff, y ganolfan ymwelwyr, yr hyb cyflogaeth, y ddeintyddfa a’r siop. Yn rhan o’r strategaeth, byddai staff yn cael eu hannog i ganfod cyfleoedd newydd i osod deunyddiau darllen, ac roedd y stoc yn cael ei hadnewyddu’n aml. Byddai staff ar bob lefel yn cynnal sgyrsiau â charcharorion am lyfrau ac yn argymell testunau i’w darllen yn gyson, ac roedd y digwyddiadau Big Read chwarterol yn dathlu llwyddiant ac yn hyrwyddo gwelliant. Roedd cysylltiadau cryf wedi’u sefydlu â’r gymuned hefyd; byddai carcharorion yn cael eu hannog i ymuno â’r llyfrgell leol er mwyn gallu ymweld â hi pan fyddent wedi’u rhyddhau dros dro; roedd llyfrynnau *What’s On Doncaster* ar gael; ac roedd cyfleoedd i hybu llythrennedd a chynnwys y teulu mewn digwyddiadau diwylliannol wrth ryddhau carcharorion ar drwydded dros dro (ROTL).









**‘Mae Hatfield yn hoffi darllen’**

1.36 Yn Rye Hill, roedd llyfrgelloedd bach wedi'u lleoli ar wasgar ar draws y safle, yn cynnwys mewn mannau awyr agored. Roedd cod lliw ar bob un o'r llyfrau i ddynodi lefel yr anhawster darllen, gan gyflawni nifer o ddibenion: dangos bod deunydd ar gael i ddarllenwyr ar bob lefel, ei gwneud yn hawdd monitro amrywiaeth y stoc, a chynnig ffordd ymarferol, ddisylw i staff gael deall lefelau llythrennedd y rheini a oedd o dan eu gofal. Eglurwyd y system hon i'r holl staff wrth eu sefydlu ac roedd yn cael ei hategu'n rhan o'r strategaeth darllen i'r carchar cyfan. Yn ogystal â hyn, roedd sesiynau Drop Everything And Read (DEAR) yn cael eu cynnal yn rheolaidd dair gwaith yr wythnos (gweler paragraff 2.2), a oedd yn normaleiddio darllen ym mhob rhan o'r carchar.




**Codau lliw ar lyfrau i ddangos anhawster darllen, Rye Hill**

1.37 Lle roedd y diwylliant darllen wedi gwreiddio ddyfnaf, roedd darllen yn cael ei hyrwyddo ym mhob agwedd ar y ddarpariaeth addysg a gweithgarwch, nid mewn gwersi Saesneg yn unig. Er enghraifft, yn Frankland, roedd arddangosiadau Word-ometer ar gyfer datblygu geirfa i'w gweld mewn mannau ar gyfer addysgu pob pwnc ac, yn Ranby, roedd cyrsiau uchel eu statws fel hyfforddiant campfa yn cynnwys tasgau darllen. Roedd rhai gweithdai yn arloesi drwy neilltuo rhai cyfnodau, fel yr amser casglu offer, ar gyfer darllen, neu'n hwyluso grwpiau darllen gyda'r hwyr. Roedd y ddarpariaeth ffydd hefyd yn cynnig cyfleoedd strwythuredig i ddarllen a thrafod testunau.




**Word-ometer, Frankland**

1.38 Roedd mentrau teuluol yn chwarae rhan bwysig wrth sicrhau bod darllen yn weladwy ac yn cael ei weld yn werthfawr. Roedd nifer o lyfrgelloedd yn stocio llyfrau plant i'w defnyddio yn ystod ymweliadau teuluol, a byddai deunyddiau'n cael eu rhoi i blant yn aml yn ystod digwyddiadau arbennig. Roedd y fenter Raising Readers, lle mae carcharorion a'u plant yn cael yr un llyfr i'w ddarllen gyda'i gilydd neu ei drafod dros y ffôn, yn cael ei defnyddio'n helaeth ac yn cynnig cyswllt llythrennedd pwysig rhwng y cartref a'r carchar. Yn yr un modd, roedd y mentrau Storybook Mums a Storybook Dads yn rhoi cyfle i garcharorion eu recordio eu hunain yn darllen storïau i'w plant, gan gryfhau clymau teuluol a rhoi cymhelliant yn aml i gyfranogwyr wella eu llythrennedd. Fodd bynnag, oherwydd oedi wrth gyflawni cliriadau diogelwch a threfnu bod cyfleusterau recordio ar gael, roedd rhestrau aros mewn rhai sefydliadau.




**Basged ddarllen i blant, Hatfield**

**Ymyriad darllen teuluol**

Roedd un carcharor yn Frankland, a oedd yn cymryd rhan yn rheolaidd mewn grŵp darllen, wedi dweud bod y gallu i ddarllen wedi'i helpu i "greu cysylltiad" â'r rheini y tu allan. Nawr roedd yn gallu defnyddio'r cynllun Raising Readers i ddarllen gyda'i nithoedd.

1.39 Roedd Chelmsford yn cynnig esiampl arloesol o ddulliau i hybu llythrennedd yn y teulu drwy gynnal digwyddiadau Messy Church yn y capel, lle byddai plant ar ymweliad yn cael llyfrau ffydd i fynd â nhw adref. Yn Hatfield, roedd diwrnod teuluol ar thema llyfrau yn cael ei ddarparu mewn partneriaeth â'r Ymddiriedolaeth Cyngor a Gofal Carchardai (PACT), The Little Angel Theatre a Give a Book, a chlasuron i blant yn cael eu dewis gan yr uwch dîm rheoli a'u prynu ar gyfer y digwyddiad.

1.40 Fodd bynnag, mewn rhai carchardai, gwelwyd arddangosiadau llyfrau dan glo y tu ôl i ddrysau gwydr neu'n amlwg heb eu defnyddio. Byddai'r stoc yn aml yn hen, yn amherthnasol neu heb fod yn addas i anghenion y boblogaeth, ac nid oedd systemau ar waith i fonitro ac adnewyddu'r stoc. Mewn achosion o'r fath, nid oedd arddangosiadau a llyfrgelloedd

bach yn cyfrannu nemor ddim at greu diwylliant darllen cadarnhaol ac nid oedd carcharorion yn gweld gwerth iddynt.

1.41 Roedd Llyfrau'r Noson Gyntaf a rhoddion gan sefydliadau, fel Give a Book, yn effeithiol lle roedd y systemau darparu'n gyson ac wedi'u rheoli'n dda. Fodd bynnag, mewn rhai carchardai derbyn, nid oedd y mentrau hyn yn cael eu rhedeg mewn ffordd ddibynadwy, fel bod eu heffaith ddichonol yn llai.

# Atodiad I Strategaeth darllen

Mae’r rhestr wirio hon yn cael ei chynnig fel adnodd y gall arweinwyr ei ddefnyddio i’w helpu i ddatblygu a gwella eu strategaeth darllen. Mae’n disgrifio’r elfennau a nodweddion a geir mewn strategaethau darllen llwyddiannus y bydd llywodraethwyr efallai’n dymuno eu hystyried a’u hefelychu.

## Arweinyddiaeth a strategaeth

- Mae’r llywodraethwr a’r uwch arweinwyr yn rhoi cefnogaeth weladwy, gyson i’r strategaeth darllen.
- Mae datganiad clir o fwriad am bwysigrwydd darllen yn cael ei rannu ar draws y carchar.
- Mae’r adrannau addysg, sgiliau a gwaith, y llyfrgell ac adrannau eraill yn gweithio tuag at nod cyffredin ar gyfer darllen.
- Cynhelir cyfarfodydd darllen strategol yn rheolaidd, gan gymryd cofnodion a dangos atebolrwydd clir.
- Bydd arweinwyr yn defnyddio data (yn cynnwys canlyniadau profion sgrinio, presenoldeb a defnydd o’r llyfrgell) i graffu ar y ddarpariaeth a’i haddasu.
- Mae darllen yn cael ei gysylltu ag adsefydlu, gweithgarwch buddiol a dalfa fwy diogel.

## Dealltwriaeth a chyfranogiad y staff

- Mae’r holl staff yn cael hyfforddiant sefydlu a hyfforddiant dilynol ar strategaeth darllen y carchar.
- Mae’r holl staff yn gwybod sut i adnabod carcharorion sy’n cael anhawster i ddarllen a’u hatgyfeirio.
- Mae pwysigrwydd darllen yn cael ei ategu mewn sesiynau briffio, diweddariadau a hyfforddiant i staff.
- Bydd y staff yn dangos esiampl yn eu hymddygiadau darllen ac yn cynnal sgyrsiau am lyfrau gyda charcharorion.
- Mae hyrwyddwyr darllen yn cael eu dynodi i gynnal brwdfrydedd.

## Adnabod anghenion

- Bydd yr holl garcharorion yn cwblhau asesiad darllen wrth gael eu derbyn (BKSB a phrawf sgrinio).
- Rhennir y canlyniadau â staff y tu allan i’r adran addysg (gweithwyr allweddol, swyddogion adain).
- Mae systemau ar waith i sicrhau bod carcharorion sy’n methu sesiynau cynefino addysg yn cael eu sgrinio.
- Mae’r cynnydd ar ddarllen yn cael ei dracio, ei adolygu a’i ddathlu.

## Ymyriadau ar gyfer darllenwyr newydd a rhai sy'n cael anhawster i ddarllen

- Mae athrawon arbenigol hyfforddedig yn y carchar sy'n darparu cymorth dechrau darllen a ffoneg.
- Mae ymyriadau ar gael ar sail un-i-un a grwpiau bach ac yn cael eu darparu'n gyson ac yn aml.
- Mae nifer o wahanol ymyriadau ar gyfer datblygu darllen, ac mae'r rhain yn cael eu hadolygu'n rheolaidd, ynghyd â'u heffeithiolrwydd.
- Mae rhaglen Ymddiriedolaeth Shannon (neu un gyfatebol) yn cael ei thargedu'n briodol, yn derbyn adnoddau digonol, yn cael ei hintegreiddio a'i monitro o ran ei heffaith.

## Rôl y llyfrgell a'r mynediad iddi

- Mae mynediad i'r llyfrgell yn cael blaenoriaeth yn system y carchar (er enghraifft, wrth leoli hebryngwyr a swyddogion).
- Mae'r oriau agor yn caniatáu mynediad i garcharorion sydd mewn gwaith ac addysg, ac mae systemau ar waith ar gyfer agor gyda'r hwyr, ar benwythnosau a'r tu allan i oriau arferol.
- Mae stoc y llyfrgell yn cynnwys testunau o bob math, yn cynnwys deunyddiau amrywiol a rhai hawdd eu darllen.
- Mae'r llyfrgell yn rhedeg digwyddiadau rheolaidd sy'n cael eu hysbysebu (ymweliadau gan awduron, gwyliau darllen, gweithdai).
- Mae'r llyfrgell yn darparu mannau tawel, anfeirniadol ar gyfer darparu cymorth drwy raglen Ymddiriedolaeth Shannon (neu un gyfatebol) a mathau eraill o gymorth i ddarllen.
- Ceir rolau i garcharorion sy'n cynnal y llyfrgell a'r rhain o statws uchel.

## Gwneud i ddarllen fod yn weladwy ac yn hygyrch

- Mae deunyddiau darllen ar gael ym mhob rhan o'r carchar (yr adeiniau, gweithdai, gofal iechyd, ymweliadau, ystafelloedd cymdeithasu, mannau staff).
- Mae cilfachau llyfrau/llyfrgelloedd bach yn cael eu cynnal yn dda, eu hadnewyddu'n rheolaidd a'u cysylltu ag anghenion.

# Atodiad II Methodoleg

Cynhaliwyd dadansoddiad o’r ymatebion i arolygon o arolygiadau o garchardai a gyhoeddwyd yn ystod cyfnod yr adroddiad blynyddol rhwng 1 Ebrill 2024 a 31 Mawrth 2025. Mae’r holiadur yn cynnwys cwestiynau strwythuredig sy’n hwyluso dadansoddi meintiol, fel y gellir cymharu grwpiau o fewn y sampl.

Dadansoddwyd 5,804 o ymatebion o gyfanswm o 38 o garchardai oedolion (36 o rai dynion a dau o rai menywod). Cynhaliwyd dadansoddiad cymharol gan gymharu’r ymatebion gan garcharorion a nododd fod arnynt angen cymorth i ddarllen a’r rheini gan y carcharorion a oedd heb angen am gymorth i ddarllen, a rhoddwyd prawf ar y gwahaniaethau am arwyddocâd ystadegol. Cynhaliwyd dadansoddiadau cymharol eraill hefyd gan ddefnyddio’r un fethodoleg. Drwy gydol yr adroddiad, rydym yn cyfeirio at gymariaethau rhwng y ddau grŵp dim ond lle mae arwyddocâd ystadegol iddynt. Y lefel arwyddocâd a bennwyd yw 0.01, felly mae tebygolrwydd o ddim ond 1% fod y gwahaniaeth yn y canlyniadau wedi codi ar hap.

Cynhaliwyd y gwaith maes ar gyfer yr adolygiad thematig hwn rhwng Mai 2025 ac Awst 2025. Dewiswyd sefydliadau ar sail y meini prawf canlynol:

- Amrywiaeth o fathau gweithredol, er enghraifft, carchardai diogelwch uchel, carchardai derbyn a charchardai agored, yn ogystal â charchardai hyfforddi a sefydliadau sy’n cadw menywod.
- Sefydliadau yn y sector preifat a’r sector cyhoeddus.
- Lleoliad daearyddol, gan sicrhau bod gwasgariad o garchardai ledled Cymru a Lloegr.

Yn ogystal â hyn, defnyddiwyd y ffynonellau gwybodaeth canlynol i ddynodi rhai safleoedd gwaith maes lle roeddem wedi gweld o’r blaen fod gwaith nodedig yn digwydd i hyrwyddo darllen:

- Adborth ac arsylwi gan gydweithwyr a phartneriaid.
- Adroddiadau am arolygiadau Arolygiaeth Carchardai EF.

Roedd y carchardai canlynol wedi’u cynnwys:

| Sefydliad | Lleoliad | Swyddogaeth | Darparwr addysg |
|---|---|---|---|
| Rye Hill* | Dwyrain Canolbarth Lloegr | Carcharorion a gafwyd yn euog o droseddau rhywiol | Novus |
| Ranby | Dwyrain Canolbarth Lloegr | Categori C hyfforddi ac ailsefydlu | PeoplePlus |
| Abertawe | De Cymru | Categori B derbyn | HMPPS Cymru |
| Lindholme | De Swydd Efrog | Categori C hyfforddi | Novus |
| Hatfield | De Swydd Efrog | Agored | Novus |

| Sefydliad | Lleoliad | Swyddogaeth | Darparwr addysg |
|---|---|---|---|
| Low Newton | Gogledd-ddwyrain Lloegr | Menywod | Novus |
| Frankland | Gogledd-ddwyrain Lloegr | Diogelwch uchel | Milton Keynes College |
| Chelmsford | Essex | Categori B carchar derbyn ac ailsefydlu lleol | PeoplePlus |
| Send | Surrey | Menywod | Milton Keynes College |

* Mae Rye Hill yn cael ei redeg gan G4S

Cynhaliwyd y canlynol ym mhob un o'r sefydliadau.

- Adolygiad o strategaeth darllen y carchar a chofnodion cyfarfodydd darllen cysylltiedig, offer asesu, tracwyr cynnydd a deunyddiau eraill i hyrwyddo darllen er mwyn cael gwybod am y gwaith a oedd mewn llaw i hyrwyddo ac addysgu darllen.
- Ymgynghoriad â staff allweddol a oedd yn ymwneud â chyflawni strategaeth darllen y carchar. Roedd hyn yn cynnwys asesu anghenion darllenwyr, sut mae darllen yn cael ei addysgu, hyfforddi a datblygu staff, arweinyddiaeth a'r dull gweithredu carchar cyfan, yn ogystal â'r llyfrgell a sut mae cynnydd yn cael ei fonitro. Roedd yn cynnwys y bobl ganlynol:
  - y llywodraethwr
  - pennaeth addysg, sgiliau a gwaith
  - pennaeth gostwng aildroseddu
  - pennaeth dysgu a sgiliau
  - rheolwr darpariaeth fframwaith addysg y carchar
  - athrawon darllen arbenigol ac athrawon eraill
  - staff diwydiant a phreswylio
  - llyfrgellydd.
- Ymgynghoriad â charcharorion y dynodwyd eu bod ymysg y 10 darllenydd ar y lefel isaf yn y carchar. Rhai carcharorion a oedd yn ymwneud â gwasanaethau i addysgu darllen a rhai a oedd heb gael eu dewis i'w cyf-weld. Cynhaliwyd cyfweliadau â chyfanswm o 33 o garcharorion. Roedd yr ymgynghoriad â charcharorion yn cynnwys eu profiadau o ymgymryd ag asesiadau darllen, derbyn addysg darllen a hefyd eu harferion darllen ar y pryd, a'r defnydd o lyfrgell y carchar a'i hadnoddau.

Cafodd y canfyddiadau o'r holl ffynonellau data hyn eu triongli er mwyn dod i'n casgliadau cyffredinol.

Cynhaliwyd yr adolygiad yn unol â'r gofynion yn Egwyddorion moesegol ar gyfer gweithgareddau ymchwil Arolygiaeth Carchardai EF.

# Rhestr termau

**Asesu, gofal yn y ddalfa a gwaith tîm (ACCT)**
Rheoli achosion carcharorion sy'n wynebu'r risg o hunanladdiad neu hunan-niweidio.

**Cynllun herio, cynorthwyo ac ymyrryd (CSIP)**
Fe'i defnyddir yn yr holl garchardai oedolion i reoli'r carcharorion hynny sy'n dreisgar neu'n peri risg uwch o fod yn dreisgar. Mae'r carcharorion hyn yn cael eu rheoli a'u cynorthwyo ar sail cynllun sy'n cynnwys targedau unigoledig ac adolygiadau rheolaidd. Nid yw CSIP yn cael ei ddefnyddio i reoli achos pob carcharor treisgar. Mae rhai carchardai hefyd yn defnyddio fframwaith y CSIP i gynorthwyo dioddefwyr trais.

**Gwaith allweddol**
Cynllun sy'n gweithredu ar draws yr ystad gaeedig i ddynion ac sy'n un elfen yn y model Rheoli Troseddwyr yn y Ddalfa (OMiC). Mae oddeutu chwe charcharor ym mhob llwyth achosion sydd o dan ofal swyddog carchar. Y nod yw galluogi staff i feithrin perthynas adeiladol, ysgogiadol gyda charcharorion a fydd yn gallu eu helpu a'u hannog i weithio tuag at nodau cadarnhaol ar gyfer adsefydlu.

**Llyfrau Diffusion**
Llyfrau hawdd eu darllen a gomisiynwyd yn arbennig sydd â phlotiau gafaelgar. Maent yn cael eu cyhoeddi gan SPCK ac yn cael eu dosbarthu'n rhad ac am ddim i garchardai.

**Rhyddhau ar drwydded dros dro (ROTL)**
Gallu gadael y carchar am gyfnod byr ar gyfer gweithgareddau penodol.

**Storybook Dads / Storybook Mums**
Cynllun sy'n galluogi carcharorion i recordio stori ar gyfer eu plant.

**Ymddiriedolaeth Shannon**
Elusen sy'n cynorthwyo pobl yn y carchar i ddysgu i ddarllen.

# Cyfeiriadau

**Prison Education: A review of reading education in prisons,** Ofsted ac Arolygiaeth Carchardai EF (2022)
https://hmiprisons.justiceinspectorates.gov.uk/hmipris_reports/prison-education-a-review-of-reading-education-in-prisons/

**The quality of reading education in prisons: one year on**, Ofsted ac Arolygiaeth Carchardai EF (2023)
https://hmiprisons.justiceinspectorates.gov.uk/hmipris_reports/the-quality-of-reading-education-in-prisons-one-year-on/

# Diolchiadau

Awdur yr adroddiad hwn yw Louise Johns-Shepherd (Arolygydd Cyswllt).

Cynhaliwyd y gwaith maes ar gyfer y prosiect gan Charlie Taylor (Prif Arolygydd), Louise Johns-Shepherd, Donna Ward (Arolygydd) a Sara Pennington (Arweinydd Tîm), gyda chymorth gan Sophie Riley (Pennaeth Data Ymchwil a Themateg), Helen Ranns a Joe Simmonds (Uwch Swyddogion Ymchwil) a Jasjeet Sohal (Cynorthwyydd Ymchwil).

Darparwyd cymorth ychwanegol gan Elizabeth Renard (Pennaeth Polisi), Tamsin Williamson (Pennaeth Cyfathrebu a Chyhoeddiadau) a John Hilsdon ac Ali Dixon (Swyddogion Cyfathrebu).

Mae tîm y prosiect am ddiolch hefyd i'r holl staff, rheolwyr a charcharorion yn y safleoedd yr ymwelwyd â nhw ar gyfer y gwaith hwn.